## Arloesi



**Meddalwedd Cleric -** Rhaglen gyfrifiadurol yw hon ar gyfer cynllunio a defnyddio adnoddau, ac rydym ni'n ei defnyddio i wella sut rydym ni'n cyflawni a'n perfformiad.

## Cynorthwywyr Digidol Personol



Mae'r dyfeisiau hyn wedi eu cyflwyno i weithio gyda system Cleric. Maent yn galluogi ein gyrwyr i gofnodi'n electronig eu bod wedi casglu a dosbarthu eitemau a gludir gan y Gwasanaeth Negesydd Iechyd.

## Y Fflyd



Dros y 12 mis diwethaf rydym ni wedi bod wrthi'n disodli'n fflyd, ac erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o'n cerbydau unedau rheoli tymheredd er mwyn sicrhau bod modd cludo eitemau o fewn amrediadau tymheredd a reolir.



## Manylion Cyswllt

Pencadlys y Gwasanaeth Negesydd Iechyd, Uned 1E Ystâd Ddiwydiannol WestPoint, Heol Penarth Caerdydd CF11 8JQ

Rhif ein Canolfan Gyfathrebu:

**0300 123 4092**

Nwssp_hcscontrolhub@wales.nhs.uk

Cofiwch y byddwn ni'n gofyn am y canlynon pan fyddwch chi'n gwneud cais cludo:

- Eich enw
- Rhif cyswllt
- Cod cost

**Ni fydd modd prosesu'ch cais heb god cost**

Am unrhyw anghenion cludo ychwanegol, cysylltwch â'r Ganolfan.

# Gwasanaeth Negesydd Iechyd y GIG

Olwynion y GIG yng Nghymru


Mae hyn ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro




GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Ein Hystafell Reoli

Yn rhan o'r gwelliannau parhaus i sut rydym ni'n darparu ein gwasanaethau, mae Canolfan Gyfathrebu wedi ei sefydlu yng Nghaerdydd.  Nod y Ganolfan yw rheoli ceisiadau rheolaidd, brys ac argyfwng (e.e. goleuadau glas) yn unol â'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocolau Gweithredu Brys.



Caiff y galwadau mae'r Ganolfan yn eu derbyn eu rheoli mewn modd cyson, gan ddilyn ein meini prawf anfon. Rydym ni'n defnyddio sawl cerbyd, sy'n cynnwys faniau bach, faniau 3.5 tunnell, loriau, cerbydau cymorth brys a cherbydau 4x4 mewn tywydd garw ayyb.


Mae'r Ganolfan ar agor rhwng 08:00 a 17:00, Dydd Llun i Ddydd Gwener. Rheolir galwadau y tu allan i oriau gan un o'n partneriaid a chefnogir ein gwasanaethau gweithredol gan y Rheolwr ar Ddyletswydd.

*"Unwaith eto, diolch yn fawr iawn. Gwnaethoch chi ein helpu i ddatrys problem anodd, a thrwy hynny galluogoch chi dimau eraill yn y sefydliad i barhau â'u gwaith. Gwasanaeth rhagorol gan dîm gwych!"*

**Rheolwr y Labordy Trallwyso Gwaed yn Ysbyty Athrofaol Cymru**

## Adborth Diweddar

Mae holiadur boddhad cwsmeriaid wedi ei gynnal yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro er mwyn canfod yr hyn y mae defnyddwyr ein gwasanaethau yn ei feddwl o'n perfformiad. Dyma'r canlyniadau:




**"Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar y gwasanaeth rwy'n ei dderbyn gan y Gwasanaeth Negesydd Iechyd"**

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Mae'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn cefnogi gwasanaethau rheng flaen, gan weithio 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, a darparu gwasanaethau logistaidd hanfodol i ysbytai, clinigau, practisiau meddygon teulu , fferyllfeydd ac ysgolion (brechlynnau ffliw) ayyb.

Gan ddilyn amserlen a drefnir ymlaen llaw, rydym ni'n dosbarthu ac yn casglu post mewnol ac allanol, ac yn cyfnewid post mewn ystafelloedd post canolog yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau i'w postio (o fewn 24 awr fel arfer).

Rydym ni'n cludo samplau, gwaed a chynhyrchion gwaed ar gyfer patholeg a meddyginiaethau hanfodol ynghyd ag ystod eang o eitemau i gleifion o dan amodau rheolaidd, brys ac argyfwng.

Rydym ni'n gweithio fel partner GIG gyda'r canlynol:

- Pob Bwrdd Iechyd GIG Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Gwasanaethau Gwaed Cymru
- Y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr (EMRTS)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans y GIG
- Iechyd Cyhoeddus Cymru